

Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r ymgynghoriad mewn perthynas â masnach

Dyddiad: 7 Medi 2021

Awdur: Dr Louisa Petchey, Uwch Swyddog Polisi

Crynodeb:

- **Gall Masnach a Chytundebau Masnach Rydd (FTAs) effeithio ar iechyd a llesiant trwy nifer o lwybrau penderfynyddion iechyd, o'r bwyd rydym yn ei fwyta i'n gwasanaethau gofal iechyd, y farchnad swyddi a'r gallu i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Hoffem weld Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ystyried goblygiadau masnach i iechyd y cyhoedd yn eu gwaith.**
- **Mae Llywodraeth y DU eisoes yn trafod cytundebau masnach a allai arwain at ganlyniadau i iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau yng Nghymru.** Mae newidiadau i gyflogaeth, ffermio, pysgota, bwyd a'r gallu i gyflawni uchelgeisiau newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol. Efallai y bydd gallu Llywodraeth Cymru i gyflwyno rheoliadau iechyd y cyhoedd effeithiol a thynnach hefyd yn cael ei effeithio.
- Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi nifer o adroddiadau sy'n archwilio'r cysylltiad rhwng iechyd y cyhoedd a masnach yn fwy manwl. **Byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hapus i rannu tystiolaeth o'n dadansoddiad a'n hymchwil gyda'r Pwyllgor.**

1. Sut mae masnach a Chytundebau Masnach Rydd (FTAs) yn effeithio ar iechyd y cyhoedd

Mae hanes hir i'r cysylltiad rhwng masnach ac iechyd. Mae pandemig COVID-19 yn dangos sut y gall afiechydon heintus ac argyfyngau iechyd effeithio ar fasnach - er enghraifft, cynyddu mewnfario ac allfario rhai nwyddau (fel mygydau wyneb a chyflenwadau meddygol) tra'n leihau eraill.¹ Ond nid afiechydon heintus yw'r unig fater iechyd sy'n gysylltiedig â masnach. Mae'r rhestr isod, wedi'i haddasu o adroddiad Sefydliad Iechyd y Byd, yn crynhoi'r prif gysylltiadau².

- Mae cysylltiad agos rhwng llesiant economaidd gwlad a llesiant ei phoblogaeth. Os yw masnach a llunio FTAs yn caniatáu i'r **economi genedlaethol** dyfu neu ddod yn fwy sefydlog mae gan hyn y potensial i fod o fudd i iechyd y cyhoedd, gyda'r un peth yn wir am y gwrthwyneb. Er enghraifft, gall **ganiatáu i lywodraethau fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau cyhoeddus, fel iechyd ac addysg.**
- Gall masnach a FTAs hefyd **lunio'r farchnad swyddi**, yn gadarnhaol ac yn negyddol, trwy dariffau a rhwystrau technegol eraill i fasnach. Mae bod mewn gwaith o ansawdd da yn cynnig llawer o fuddion cadarnhaol i iechyd, tra bod diweithdra yn effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol a llesiant ehangach unigolion a'u cartrefi, ac ar gymunedau cyfan ar raddfa fwy.³
- Mae **llywodraethu cenedlaethol** sy'n effeithio ar y ffordd y mae pethau'n cael eu cynhyrchu neu eu gwerthu, fel **hawliau gweithwyr, rheoliadau a safonau amgylcheddol, a rheolau hysbysebu**, hefyd yn berthnasol i iechyd. Er enghraifft, mae cyfyngiadau ar hysbysebu bwyd sothach yn un elfen o fynd i'r afael â gordewdra⁴, er y gall rheoliadau amgylcheddol i leihau llygredd aer helpu i leihau nifer yr achosion o glefydau anhroslywyddadwy fel strôc a chanser yr ysgyfaint^{5,6}.
- Mae enghreifftiau o **beryglon iechyd** o fasnach yn cynnwys **dod i gysylltiad â chlefydau heintus** ond hefyd gallu cytundebau masnach i wneud **cynhyrchion nad ydynt yn iach yn rhatach, ar gael yn haws neu gael eu marchnata'n ehangach**, fel bwydydd braster uchel neu siwgr uchel.
- Gall cytundebau masnach effeithio hefyd ar **wasanaethau iechyd**, gan gynnwys **cost, cyflenwadau a mynediad at feddyginiaethau** neu y **mathau o wasanaethau a ddarperir a chan bwy.**



- Mae'r holl ffactorau hyn yn chwarae rhan mewn **buddsoddiad cartref mewn iechyd**, neu **allu pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach**. Enghraifft dda o sut y gall sawl ffactor ddod at ei gilydd yw'r gallu i fwyta'n iach. Gall masnach newid pa fwyd sydd ar gael ac ar ba gost; incwm pobl a/neu statws cyflogaeth ac felly faint y mae'n rhaid iddynt ei wario ar fwyd; a'r rheolau ar hysbysebu rhai mathau o fwyd, a all effeithio ar ddewisiadau pobl.

1.1 Anghydraddoldebau masnach ac iechyd

Mae **effaith masnach ar iechyd a llesiant yn debygol o gael ei deimlo'n wahanol ar draws poblogaeth gwlad**. Er enghraifft, gall masnach greu swyddi mewn rhai sectorau ond arwain at ddiweithdra mewn eraill⁷. Bydd newidiadau mewn pris nwyddau yn cael mwy o effaith ar deuluoedd tlotach. Lle mae gan gytundebau masnach oblygiadau ar gyfer meddyginiaethau a gwasanaethau iechyd, y bobl sydd eu hangen fwyaf, fel y rhai â chyflyrau tymor hir, fydd yn cael eu heffeithio fwyaf. **Gallai rhai pobl brofi buddion neu anfanteision cronus i'w hiechyd a'u llesiant**, a thrwy hynny waethygu'r anghydraddoldeb iechyd presennol yng Nghymru.

1.2 Gwneud masnach yn 'iachach'

Er gwaethaf y cysylltiadau niferus rhwng masnach ac iechyd, anaml yr ystyrir FTAs fel modd o wella neu amddiffyn iechyd y cyhoedd. Daeth astudiaeth gan gyfnodolyn y Lancet i'r casgliad bod **masnach ac iechyd ar hyn o bryd yn gweithredu mewn 'cyloedd polisi ar wahân'**, gyda thensiynau sylweddol rhwng amddiffyn a gwella iechyd a'r nod o gynhyrchu cyfoeth a mwy o gysylltiad byd-eang trwy fasnach⁸. Galwodd am **lais cryfach dros iechyd y cyhoedd mewn trafodaethau masnach ac am dystiolaeth well sy'n dangos sut y gall masnach effeithio ar iechyd**⁹.

Mae Cyfadran Iechyd Cyhoeddus y DU (FPH) wedi cyhoeddi glasbrint ar gyfer polisi masnach 'iach', gan nodi sut y dylai Llywodraeth y DU ddefnyddio dull iechyd y cyhoedd tuag at gytundebau masnach a thrafodaethau yn y dyfodol¹⁰. Ymhlith pethau eraill, mae'n nodi'r angen am **arbenigwyr iechyd y cyhoedd i fod yn rhan o drafodaethau masnach**, i gytundebau masnach **hybu tegwch iechyd a chynaliadwyedd** ac i **drafodaethau masnach fod yn dryloyw gyda goruchwyliaeth ddemocrataidd**.

2. Goblygiadau cytundebau a pholisi masnach newydd i iechyd y cyhoedd yng Nghymru

- Mae'n ofynnol i'r UE ystyried materion iechyd y cyhoedd yn ei thrafodaethau masnach, ac mae ei phrosesau yn galluogi i dystiolaeth iechyd y cyhoedd gael ei hystyried cyn cytuno ar amcanion masnach. Rhaid i Senedd yr UE hefyd roi eu caniatâd cyn llofnodi cytundeb¹¹. Mae'r FPH yn argymhell goruchwyliaeth ddemocrataidd ar gyfer polisi masnach 'iach'. **Hyd yn hyn nid yw'r DU wedi mabwysiadu'r dulliau hyn na dulliau eraill a fyddai'n galluogi ei pholisi masnach i geisio gwell canlyniadau iechyd y cyhoedd.**
- **Gall cytundebau masnach newydd a gyd-drafodwyd gan Lywodraeth y DU effeithio ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru.** Gallai effeithiau ar gyflogaeth, ffermio, pysgota, bwyd a newid yn yr hinsawdd fod yn arbennig o berthnasol. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adroddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd ar ddod (gweler adran 3). Mae rhai enghreifftiau o effeithiau posibl yn cynnwys:
 - Bydd y cytundebau arfaethedig ag Awstralia ac India yn caniatáu i fwy o bobl o'r gwledydd hyn fyw a gweithio yng Nghymru^{12,13}. Gallai hyn **effeithio ar y farchnad swyddi** trwy gynyddu cystadleuaeth ar gyfer rhai rolau, neu gallai olygu bod rolau a fyddai'n wag fel arall yn cael eu llenwi.
 - Ar ôl llofnodi'r cytundeb, gellir mewnforio llawer mwy o gig oen o Awstralia i'r DU nag yn awr, gyda'r holl gyfyngiadau sy'n weddill yn cael eu codi o fewn 15 mlynedd. **Mae ffermwyr Cymru yn ofni na fyddant yn gallu cystadlu a gallent fynd i'r wal** os llofnodir cytundebau gydag allforwyr cig oen mawr eraill¹⁴. Gall pwysau ariannol effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant ffermwyr a chymunedau¹⁵.
 - Mae strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach' Llywodraeth Cymru yn anelu at leihau gordewdra yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynlluniau i'w **gwneud hi'n haws prynu bwyd iach yn ogystal â chyflwyno rheolau newydd ar hysbysebu a chynnwys bwyd - y gallai telerau cytundebau masnach effeithio ar bob un ohonynt**¹⁶.
 - Os yw cytundebau masnach newydd yn golygu bod mwy o'r nwyddau a ddefnyddir yng Nghymru yn dod o ymhellach i ffwrdd, bydd gan Gymru **ôl troed carbon mwy o faint**¹⁷. Byddai hefyd yn **gwaethygu llygredd aer**, sy'n cyfrannu'n helaeth at afiechydon fel clefyd anadlol cronig a strôc¹⁸.
- Gallai'r **gweithdrefnau datrys anghydfodau buddsoddwyr mewn rhai cytundebau masnach atal Llywodraeth Cymru rhag pasio deddfwriaeth iechyd y cyhoedd newydd**. Gallai buddsoddwyr lansio her gyfreithiol pe byddent yn teimlo bod polisi e.e. targedau datgarboneiddio, yn cael effaith negyddol ar eu buddsoddiad. Mae heriau cyfreithiol o'r fath yn ddrud iawn i'w hamddiffyn. **Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 hefyd yn ei gwneud yn anoddach i ddeddfwriaeth Cymru reoleiddio'r holl nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru, a allai danseilio effeithiolrwydd polisi iechyd y cyhoedd yng Nghymru.**



3. Gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ym maes masnach ac iechyd

Gweithiodd ICC gydag arbenigwyr polisi masnach i ddarparu cyfres o ddsbarthiadau meistr ar fasnach ac iechyd ym mis Ebrill a Mai 2021. Mae adnoddau o'r digwyddiadau hyn ar gael ar gais. Byddwn hefyd yn cyhoeddi nifer o adroddiadau yn archwilio'r berthynas rhwng masnach ac iechyd y cyhoedd yn ystod yr hydref 2021.

- Brexit a Thlodi yng Nghymru: Safbwynt Iechyd y Cyhoedd
- Ateb Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru
- Nodyn briffio: Beth allai cytundebau masnach rydd ar ôl Brexit ei olygu i iechyd y cyhoedd yng Nghymru?

4. Cyfeiriadau

¹ Hidalgo, CA (2020). How COVID-19 has affected trade, in 8 charts. [Ar-lein]. Ar gael yn:

<https://www.weforum.org/agenda/2020/11/how-covid-19-has-reshuffled-international-trade/>

² Smith, R., Blouin, C., Mirza, Z., Beyer, P. a Drager, N. (2015). Trade and Health: Towards building a National Strategy. *World Health Organisation*. Ar gael yn: <https://www.who.int/publications/i/item/9789241565035>

³ Davies, A.R., Homolova, L., Grey, C. a Bellis, M.A. (2017). Digwyddiadau Diweithdra Torfol (MUEs) - Atal ac Ymateb o Safbwynt Iechyd y Cyhoedd. *Iechyd Cyhoeddus Cymru*. Ar gael yn: <https://phwwhocc.co.uk/resources/mass-unemployment-events-mues-prevention-and-response-from-a-public-health-perspective/>

Llywodraeth Cymru (2019). Strategaeth pwysau iach (Pwysau Iach Cymru Iach). Ar gael yn:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/healthy-weight-healthy-wales_0.pdf

⁵ Yang, H., Perez Velasco, R., Mudu, P. a Jarosinska, D. (2019). Noncommunicable diseases and air pollution: Cynhadledd Lefel Uchel Ewropeaidd WHO ar glefydau anhrosglwyddadwy. *Canolfan Ewropeaidd WHO ar gyfer yr Amgylchedd ac Iechyd*. Ar gael yn: https://www.euro.who.int/data/assets/pdf_file/0005/397787/Air-Pollution-and-NCDs.pdf

⁶ BMJ opinion (2020). Between covid-19, Brexit, and new trade deals, a non-communicable disease storm is brewing. Ar gael yn: <https://www.bmj.com/lookup/doi/10.1136/bmj.n1111>

⁷ Johnson, C., Price, J. a Tilley, H. (2020). The implications of the European transition for key Welsh economic sectors. *Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru*. Ar gael yn:

<https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/The-implications-of-the-European-transition-for-key-Welsh-economic-sectors.pdf>

⁸ Fidler, D.P., Drager, N. a Lee, K. (2009). Managing the pursuit of health and wealth: the key challenges. *The Lancet*. Ar gael yn: [https://www.thelancet.com/pdfs/journals/lancet/PIIS0140-6736\(08\)61775-4.pdf](https://www.thelancet.com/pdfs/journals/lancet/PIIS0140-6736(08)61775-4.pdf)

⁹ Smith, R.D., Lee, K. a Drager, N. (2009). Trade and Health: An Agenda for Action. *The Lancet*. Ar gael yn:

[https://www.thelancet.com/pdfs/journals/lancet/PIIS0140-6736\(08\)61780-8.pdf](https://www.thelancet.com/pdfs/journals/lancet/PIIS0140-6736(08)61780-8.pdf)

¹⁰ Cyfadran Iechyd Cyhoeddus (2019). Negotiating a 'Healthy' Trade Policy for the UK. Ar gael yn:

<https://www.fph.org.uk/media/2444/a-blueprint-for-a-public-health-approach-to-post-brexit-trade-negotiations.pdf>

¹¹ Senedd Ewrop (2016). Papur briffio: A Guide to EU Procedures for the Conclusion of International Trade Agreements. Ar gael yn: https://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/BRIE/2016/593489/EPRS_BRI%282016%29593489_EN.pdf

¹² Llywodraeth y DU (2021) Prif Weinidog Yn Cyhoeddi £1 biliwn o Fasnach Newydd y DU-India. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/news/prime-minister-announces-1-billion-of-new-uk-india-trade>

Llywodraeth y DU (2021). Y DU yn cytuno ar gytundeb masnach hanesyddol ag Awstralia. [Ar-lein]. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/news/uk-agrees-historic-trade-deal-with-australia>

¹⁴ Webb, D. (2021). UK-Australia Free Trade Agreement. *Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin*. Ar gael yn:

<https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9204/CBP-9204.pdf>

¹⁵ Davies, A.R., Homolova, L., Grey, C. N. B., Fisher, J., Burchett, N. a Kousoulis, A. (2019). Cefnogi cymunedau ffermio ar adegau o ansicrwydd: fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a llesiant ffermwyr a'u teuluoedd. *Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl*. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/knowledge-directorate/research-and-evaluation/publications/supporting-farming-communities-at-times-of-uncertainty/0>

¹⁶ https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/healthy-weight-healthy-wales_0.pdf

¹⁷ Olivier, J., Peters, J. a Janseen-Maenhout, G. (2012). Trends in global CO2 emissions. 2012 report. Ar gael yn:

<https://www.osti.gov/etdeweb/biblio/22116617>

¹⁸ BMJ opinion (2020). Between covid-19, Brexit, and new trade deals, a non-communicable disease storm is brewing. Ar gael yn: <https://www.bmj.com/lookup/doi/10.1136/bmj.n1111>

